Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Henblas
# Y Caban
# Ysgol Henblas
# Llangristiolus
# Ynys Môn
# LL62 5DR

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Henblas yn cyfarfod mewn caban ar dir Ysgol Henblas ym mhentref Llangristiolus ar Ynys Môn.  Mae’r lleoliad yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant yn yr ardal leol.

Mae’r cylch chwarae wedi cofrestru i dderbyn 15 o blant fesul sesiwn.  Mae’r plant sy’n mynychu’r sesiwn rhwng dwy a hanner a phedair oed.  Ar hyn o bryd, mae 25 o blant ar y gofrestr.  Mae ugain o blant yn derbyn addysg wedi’i hariannu gan yr awdurdod lleol yn y lleoliad.  Mae’r cylch chwarae’n cynnig sesiynau bore a phrynhawn, o ddydd Llun i ddydd Iau.

Daw llawer o’r plant o gartrefi lle mae un rhiant neu’r ddau yn siarad Cymraeg.  Saesneg yw iaith y cartref i ychydig o’r plant.  Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad ar hyn o bryd.

Mae dau aelod staff parhaol, y ddau ohonynt yn gymwys ac â phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc.  Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd er 2006.

Arolygwyd y cylch chwarae ddiwethaf gan Estyn yn Chwefror 2009 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Nhachwedd 2014.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd effeithiol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da ar draws pob maes dysgu
- Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac maent yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda
- Mae'r lleoliad yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu gan gynnwys ymweliadau diddorol gan aelodau'r gymuned leol
- Mae ymarferwyr yn fodelau iaith eithriadol o dda
- Mae bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut i gadw'n iach
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael ac yn trefnu ymweliadau gwerth chweil â'r ardal leol

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella
- Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg plant
- Mae hanes da o wella safonau a darpariaeth i blant
- Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill, gan groesawu cyngor a chymorth
- Defnyddir cyllid yn effeithiol i gefnogi dysgu plant

## Argymhellion

A1 Gwella medrau meddwl a medrau datrys problemau plant

A2 Cryfhau cyfathrebu â rhieni a gofalwyr

A3 Datblygu cyfleoedd i ddysgu oddi wrth leoliadau eraill a rhannu arfer dda

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Gwnânt gynnydd cyson a dangosant eu bod yn gallu adalw pethau a ddysgont yn flaenorol yn dda. Er enghraifft, gwyddant rigymau'n dda, fel 'Iâr fach wen', a gallant adalw stori 'Cywion Rebeca'.

Mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu yn unol â nhw yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gasglu eitemau penodol sydd o dan barasiwt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn hyderus yn iaith eu cartref yn ystod eu chwarae, er enghraifft wrth drafod faint o gywion sydd yn y nyth. Mae plant sy'n dysgu Cymraeg yn datblygu eu medrau siarad yn briodol. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n astud ac yn dangos diddordeb mewn straeon. Maent yn trafod llyfrau'n ofalus ac yn troi'r tudalennau'n gywir. Mae llawer o'r plant yn adnabod eu henw eu hunain ar ffurf ysgrifenedig ar eu matiau byrbryd ac yn ystod cofrestru. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer gwneud marcio yn annibynnol gyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft pan fyddant yn paentio cywion a chennin Pedr ar gyfer eu harddangosfa. Mae mwyafrif y plant hŷn yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn ysgrifennu eu henwau'n hyderus.

Mae bron pob un o'r plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dysgu caneuon a rhigymau rhif, fel 'Pump Robin Goch'. Mae llawer yn cyfrif yn hyderus i 10 ac mae mwyafrif ohonynt yn adnabod rhifau at 5, o leiaf. Mae llawer o'r plant yn trefnu gwrthrychau cyfarwydd yn gywir yn ôl lliw a maint, a defnyddiant iaith fathemategol yn gywir wrth wneud cylchoedd mawr gyda'u rhubanau yn ystod gweithgareddau awyr agored. Mae mwyafrif ohonynt yn cyfnewid ceiniogau am wyau Pasg yn gywir wrth chwarae rôl, gan ddangos eu bod yn deall y defnydd ar arian.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant fedrau corfforol sydd wedi'u datblygu'n dda. Maent yn edafu ffrwythau pren ar gareiau ac yn gwnïo o amgylch cardiau yn fedrus. Maent yn pedalu'r tractorau ac yn cydbwyso ag arbenigedd cynyddol. Mae ychydig o'r plant yn dechrau datrys problemau, er enghraifft wrth gwblhau jig-sos. Fodd bynnag, nid yw medrau meddwl a datrys problemau plant wedi'u datblygu cystal.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac maent yn hapus ac wedi ymgartrefu'n dda. Maent yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac mae ganddynt berthynas gynnes â'r ymarferwyr. Gofynnant am help pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus ac yn frwdfrydig am eu dysgu a chanolbwyntiant ar eu tasgau am gyfnodau digon hir. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n dda ac yn cydweithredu'n effeithiol i adeiladu tŵr gyda blociau cydgysylltiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn yn y lleoliad. Maent yn datblygu perthnasoedd gwerth chweil â'i gilydd, gan ddangos ystyriaeth a hunanreolaeth, er enghraifft wrth iddynt aros eu tro i ddewis offeryn cerdd. Mae llawer o'r plant yn rhannu ac yn cymryd eu tro yn addas; er enghraifft, maent yn rhannu rhwyd bysgota'n dda i gasglu hwyaid yn y badell ddŵr. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus am y man lle maent eisiau chwarae ac yn defnyddio adnoddau'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall y dylent olchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau i'w helpu i gadw'n heini, fel dawnsio gyda rhubanau, ac maent yn mwynhau bwyta ffrwythau adeg byrbryd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio ystod ddifyr o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r plant yn y lleoliad. Maent yn bodloni anghenion plant ar wahanol gamau datblygu yn dda, gan ddarparu gweithgareddau sy'n fwy heriol i'r plant mwy abl yn gyson. Er enghraifft, dewisant lyfrau â stori estynedig a geirfa gyfoethocach i'r plant hŷn.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo trwy ddilyn themâu priodol, fel 'Hydref' a 'Gwanwyn'. Maent yn trefnu ymweliadau gwerthfawr iawn yn yr ardal leol a chan aelodau'r gymuned i gyflwyno themâu a phynciau newydd; er enghraifft, fe wnaeth ymweliad gan adeiladwr lleol ysgogi diddordeb y plant mewn adeiladu. Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddeall y dylent drin popeth byw gyda gofal, parch a phryder yn effeithiol; er enghraifft, maent yn paratoi bwyd i'r adar ac yn tyfu tatws ar eu gwely codi. Mae plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arbrofi â phrofiadau newydd, er enghraifft pan fyddant yn coginio ac yn bwyta lobsgóws ac yn archwilio priodweddau iâ. Fodd bynnag, mae plant yn cael llai o gyfleoedd i gymryd risgiau ac i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd plant. Er enghraifft, maent yn nodi geirfa benodol i gyd-fynd â phob thema i sicrhau bod medrau cyfathrebu plant yn datblygu'n systematig. Maent yn dathlu ac yn dysgu am eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth diwylliannau eraill mewn modd ystyrlon. Er enghraifft, maent yn canu caneuon newydd a thraddodiadol gydag ymwelydd o'r gymuned leol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant a chynlluniant weithgareddau sy'n herio'r plant mwy abl yn dda. Yn gyffredinol, maent yn darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plant a rhai sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr, sy'n bodloni anghenion plant unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r plant iau yn cael digon o gyfleoedd i archwilio'n rhydd.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda. Dilynant drefn gyson a defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn dda i helpu plant i rannu, cymryd eu tro a dilyn cyfarwyddiadau.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith eithriadol o dda, gan rannu geirfa gyfoethog gyda'r plant trwy eu llefaredd, eu dewis o straeon a'u defnydd ar ganeuon a rhigymau traddodiadol. Maent yn datblygu eu medrau holi'n briodol i ategu dysgu plant. Cynigiant amgylchedd difyr ac ysgogol dan do a gwnânt ddefnydd da o'u hardal awyr agored a'r gymuned leol. O ganlyniad, mae plant yn cymryd rhan yn dda, yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio system briodol i asesu ac olrhain cynnydd plant ar draws pob maes dysgu. Maent yn dechrau defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio camau dysgu nesaf plant. Mae ymarferwyr yn adrodd yn ffurfiol i rieni am gynnydd eu plant mewn cyfarfod blynyddol ac yn trosglwyddo cofnod deniadol a defnyddiol o waith y plant pan fyddant yn gadael y lleoliad. Hefyd, mae gwahoddiad agored i rieni drefnu apwyntiad i drafod cynnydd eu plant unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles plant, a'u hannog i ofalu amdanynt eu hunain. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i wisgo'u cotiau a golchi eu dwylo cyn bwyta. Cynigiant ffrwythau, tost a llefrith i'r plant adeg byrbryd. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff a threulio amser yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu gwerth chweil, sy'n meithrin profiadau ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae plant yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig fel ymateb i gyfarwyddiadau, eistedd wrth fwrdd a dweud diolch am eu bwyd fel rhan o'u trefn ddyddiol. Maent yn dechrau dysgu am ddiwylliannau eraill yn effeithiol pan fyddant yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae ymarferwyr yn annog gwerthoedd pwysig fel tegwch, parch ac ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn helpu plant i adnabod pwysigrwydd bod yn deg wrth gymryd eu tro ar y tractorau tu allan. Mae trefniadau addas ar waith i blant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu deunyddiau, fel papur gwastraff.

Mae ystod briodol o bolisïau ar waith gan y lleoliad i ddiogelu plant a hybu eu lles. Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi derbyn cyngor a chymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn deall sut i ddilyn gweithdrefnau'n effeithiol. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae systemau addas i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth ychwanegol gan asiantaethau arbenigol fel bo'r gofyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol gan y lleoliad. Mae ymarferwyr yn dangos gofal a phryder tuag at yr holl blant ac yn sicrhau eu bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar weithgareddau. Hefyd, anogant y plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithredu â'i gilydd wrth chwarae. Mae digon o ymarferwyr â chymwysterau addas gan y lleoliad i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r amgylchedd dan do yn ddiogel a chaiff ei gynnal yn dda. Mae'n lliwgar a chroesawgar ac mae'r lleoliad yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda. Mae ymarferwyr yn paratoi arddangosfeydd ysgogol a deniadol sy'n dathlu gwaith plant ac yn cefnogi eu themâu yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau diddorol a phriodol i'r plant eu defnyddio, sy'n drefnus ac yn hygyrch. Yn ddiweddar, maent wedi adnewyddu adnoddau mewn rhai meysydd, fel yn y cornel llyfrau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu plant. Mae'r lleoliad yn datblygu ei ardal awyr agored ddiogel yn dda ac mae ganddo adnoddau priodol i'r plant eu defnyddio yno. Er enghraifft, mae ardal wedi'i datblygu'n dda ar gyfer archwilio bwystfilod bach a gwely codi ar gyfer tyfu llysiau. Fodd bynnag, nid oes digon o le i blant ddatblygu eu medrau corfforol yn llawn.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn dda iawn i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â thyddyn gerllaw i weld y defaid a'r ŵyn ac ânt am dro yn rheolaidd i weld y newidiadau yn y tymhorau.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda. Maent yn dîm agos, gan rannu ymdeimlad cryf o bwrpas a chydweithio'n reddfol ac yn effeithiol iawn. Maent yn creu amgylchedd hapus a phwrpasol lle mae'r plant yn teimlo'u bod o bwys. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, sy'n arwain at safon dda o ofal ac addysg yn y lleoliad.

Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor yn cynnig cymorth gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn hwylus. Mae'r pwyllgor rheoli'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion pwysig fel cynnal a chadw'r adeilad a phrynu adnoddau. Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i nodi anghenion cymorth, fel darparu mwy o amser i gynllunio gweithgareddau a chwblhau asesiadau. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar brofiadau dysgu o ansawdd da.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws digon cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd da i ddysgu am fyw'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan ymarferwyr ymrwymiad cadarnhaol i wella'n barhaus. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu harfer yn llwyddiannus, ac yn gweithredu ar y rhain yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o broses hunanarfarnu newydd i'w helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Maent wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i greu cynllun gwella defnyddiol sy'n cynnwys targedau priodol a chyfleoedd i arfarnu cynnydd. Mae arweinwyr yn gwneud cynnydd addas tuag at gyflawni'r targedau, fel gwella medrau annibyniaeth plant ar amser byrbryd. Maent

yn blaenoriaethu gwariant cyllid yn dda. Er enghraifft, prynodd arweinwyr adnoddau newydd i'r cornel llyfrau fel rhan o gynllun y llynedd i wella'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau defnyddio'r ardal hon, gan ddatblygu eu medrau cyn-darllen yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhannu eu dogfen hunanarfarnu a'u cynllun gwella yn briodol gyda'r pwyllgor rheoli, gan sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at dargedau penodol. Fodd bynnag, er bod arweinwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda ar y cyfan, nid ydynt yn llwyddo'n gyson i nodi barn pob rhiant wrth gynllunio ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill fel athro cymorth yr awdurdod lleol ac AGGCC. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn barod i weithredu ar argymhellion. Er enghraifft, dilynont gyngor gan athro cymorth yr awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn darparu gweithgareddau sy'n bodloni anghenion plant ar wahanol gamau datblygu. Fe wnaeth arweinwyr weithredu ar unwaith yn dilyn eu harolygiad diweddar gan AGGCC, gan wella gweithdrefnau diogelu yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod werth chweil o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud llawer o ymdrechion defnyddiol i rannu gwybodaeth â rhieni. Mae'r holl rieni'n cael llyfryn sefydlu cynhwysfawr pan fydd eu plant yn dechrau yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn arddangos gwybodaeth ysgrifenedig yn rheolaidd am y themâu a ddilynir gan y plant ac maent yn cynnig gwahoddiad agored i rieni er mwyn iddynt gael gwybod yn anffurfiol am gynnydd eu plant. Maent hefyd yn adrodd yn ffurfiol i rieni am gynnydd eu plant ar ddiwedd pob blwyddyn.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol iawn i gefnogi dysgu plant. Maent yn gwahodd ymwelwyr i'r lleoliad yn rheolaidd i gyflwyno thema newydd. Er enghraifft, yn ddiweddar, daeth adeiladwr lleol i siarad â'r plant am ddefnyddio brics a sment ac fe wnaeth y postmon eu helpu i ddeall am bostio a dosbarthu llythyron. Mae gan y lleoliad berthynas addas â'r grŵp Ti a Fi a'r ysgol gynradd gyfagos. Mae plant yn ymweld â'r ysgol gynradd leol yn ystod tymor yr haf i'w helpu i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth adeiladol gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, swyddog datblygu Mudiad Meithrin ac AGGCC yn cynorthwyo â gwelliant parhaus yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae ymarferwyr cymwys gyda blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant ifanc yn rhedeg y lleoliad yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd da o'u harbenigedd unigol i wella profiadau dysgu plant, fel gwau wyau a chywion gwlân fel ategion i'w helpu i wella'u medrau iaith, cyfrif a didoli.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod addas o hyfforddiant defnyddiol fel eu bod yn gyfredol ac i adeiladu ar eu medrau. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar hunanarfarnu wedi gwella'u dealltwriaeth o'r broses ac wedi arwain at adolygiad mwy rheolaidd o gynnydd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr wedi cael cyfleoedd eto i ddysgu oddi wrth leoliadau eraill na rhannu arfer dda.

Mae'r pwyllgor rheoli'n sicrhau ei fod yn adolygu'r gyllideb yn fanwl.  Mae'n blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad ac mae'n defnyddio cyllid yn effeithlon i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy ac i gefnogi dysgu plant.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 20 | 14<br>70% | 4<br>20% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 21 | 15<br>71% | 6<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 21 | 16<br>76% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 21 | 12<br>57% | 6<br>29% | 1<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 21 | 13<br>62% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 69% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 21 | 13<br>62% | 5<br>24% | 1<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 14<br>67% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 8<br>40% | 7<br>35% | 0<br>0% | 1<br>5% | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 20 | 16<br>80% | 4<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 19 | 6<br>32% | 5<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 25% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 5<br>25% | 6<br>30% | 7<br>35% | 1<br>5% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 21 | 12<br>57% | 6<br>29% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 21 | 11<br>52% | 7<br>33% | 1<br>5% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 21 | 10<br>48% | 8<br>38% | 1<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 11<br>52% | 5<br>24% | 4<br>19% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 21 | 14<br>67% | 4<br>19% | 2<br>10% | 0<br>0% | 1 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad hwn

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Y Gymdeithas Genedlaethol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |

| | |
|---|---|
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |